ENNILL STATWS CALU:

Trwy'r Rhaglen Darpar CALU

Mae Cynorthwywyr Addysgu sy'n arwain gweithgareddau ymyrraeth a chefnogaeth a Chydweithwyr eraill yn cael eu gwahodd i ymgeisio. Bydd y rhaglen 4 diwrnod (neu'r cyfwerth trwy ddull hyblyg) yn cael ei chynnal dros nifer o fisoedd, a bydd Cynorthwywyr Addysgu yn cael eu tywys tuag at asesiadau CALU. Er mwyn gwneud cais, cwblhewch y ffurflen yma: https://tinyurl.com/y2cu28yu

OS YDYCH YN COFRESTRU AR GYFER Y RHAGLEN DARPAR CALU, BYDDWCH YN:

CYFRANNU AT NEWIDIADAU A DIGWYDDIADAU CENEDLAETHOL

Bydd pob un o'r pedwar modiwl yn rhoi cyfle i chi ymgysylltu â dadleuon allweddol a phenderfyniadau o ran tirwedd addysgol Cymru.

CAEL PROFIAD O DDYSGU PROFFESIYNOL PWERUS

Bydd y rhaglen ryngweithiol hon yn eich grymuso i ddatblygu'ch gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth trwy weithgareddau, trafodaeth, ymchwil personol a chyflwyno cais ar ôl y sesiynau.

CAEL CYFLE I BARATOI AR GYFER ASESU CALU

Gyda phwyslais cryf ar arfer myfyriol, byddwch yn cael eich tywys tuag at yr asesiadau CALU newydd trwy broffil proffesiynol personol a chefnogaeth aseswr.

YMUNO Â RHWYDWAITH PROFFESIYNOL I DDATBLYGU A RHANNU ARFER

Eich cyd-gyfranogwyr fydd eich 'grŵp ymddiriedaeth' i brofi a rhannu'ch syniadau, cymharu profiadau a chynllunio datblygiadau ar gyfer y dyfodol.

Central South Consortium
Consortiwm Canolbarth y De
Joint Education Service
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd

EAS
Education Achievement Service
for South East Wales
Gwasanaeth Cyflawni Addysg
i De Ddwyrain Cymru

GwE

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working